

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel	Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Chwefror 2020	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.15	SeneddPPIA@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 – 09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 Addysg Heblaw yn yr Ysgol – sesiwn dystiolaeth 2

(09.30 – 10.30)

(Tudalennau 1 – 44)

Comisiynydd Plant Cymru

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru (trwy gynhadledd fideo)

Jane Houston, Cyngorydd Polisi – Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru (trwy gynhadledd fideo)

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

CYPE(5)-05-20 – Papur 1 – Comisiynydd Plant Cymru

Egwyl

(10.30 – 10.45)

3 Addysg Heblaw yn yr Ysgol – sesiwn dystiolaeth 3

(10.45 – 11.45)

(Tudalennau 45 – 60)

Estyn

Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol – Estyn



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Dyfrig Ellis, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Estyn

Denise Wade, Arolygydd Ei Mawrhydi – Estyn

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–05–20 – Papur 2 – Estyn (Saesneg yn unig)

4 Addysg Heblaw yn yr Ysgol – sesiwn dystiolaeth 4

(11.45 – 12.45)

(Tudalennau 61 – 73)

Cynrychiolwyr o undebau athrawon

Mairead Canavan – Ysgrifennydd Rhanbarth Bro Morgannwg ac aelod o Weithrediaeth yr NEU

Tim Cox – Swyddog Polisi a Gwaith Achos Cymru, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)

Dilwyn Roberts–Young, Ysgrifennydd Cyffredinol – Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–05–20 – Papur 3 – Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) (Saesneg yn unig)

CYPE(5)–05–20 – Papur 4 – Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) (Saesneg yn unig)

5 Papurau i’w nodi

(12.45)

5.1 Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch P–05–924: Sicrhau bod Llysgenhadon Llesiant ym mhob ysgol yng Nghymru

(Tudalennau 74 – 75)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-05-20 – Papur i'w nodi 1 (Saesneg yn unig)

5.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant

(Tudalennau 76 – 77)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-05-20 – Papur i'w nodi 2 (Saesneg yn unig)

5.3 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft ar 8 Ionawr

(Tudalennau 78 – 84)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-05-20 – Papur i'w nodi 3

5.4 Llythyr gan y Gweinidog Addysg – gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft ar 8 Ionawr

(Tudalennau 85 – 89)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-05-20 – Papur i'w nodi 4

5.5 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad – Goblygiadau posibl i bwyllgorau'r Cynulliad

(Tudalennau 90 – 92)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-05-20 – Papur i'w nodi 5

5.6 Llythyr gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 16 Ionawr ynghylch Gwella ysgolion a chodi safonau

(Tudalennau 93 – 95)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-05-20 – Papur i'w nodi 6 (Saesneg yn unig)

5.7 Llythyr gan Wasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 16 Ionawr ynghylch gwella ysgolion a chodi safonau

(Tudalennau 96 – 98)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-05-20 – Papur i'w nodi 7 (Saesneg yn unig)

**5.8 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol – Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

(Tudalennau 99 – 101)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-05-20 – Papur i'w nodi 8

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(12.45)

7 Addysg Heblaw yn yr Ysgol – trafod y dystiolaeth

(12.45 – 12.50)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Ymchwiliad i Addysg Heblaw yn yr Ysgol
EOTAS 08
Ymateb gan: Comisiynydd Plant Cymru

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee
Inquiry into Education Otherwise than at School
EOTAS 08
Response from: Children's Commissioner for Wales

Gwybodaeth gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw CCUHP, sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer llunio pob polisi sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cefndir y Cenedloedd Unedig

Cyflwynir hawliau dynol pob plentyn i dderbyn addysg yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn¹ (CCUHP) trwy Erthyglau 23, 28 a 29 a hefyd yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau² (CCUHPA) trwy Erthygl 24. Mae Sylw Cyffredinol Rhif 9

¹ <https://ohchr.org/EN/HRBodies/CRC/Pages/CRCIndex.aspx>

² <https://www.ohchr.org/EN/HRBodies/CRPD/Pages/ConventionRightsPersonsWithDisabilities.aspx>

(2006): Hawliau Plant ag Anabledau³ a Sylw Cyffredinol Rhif 1: Nodau Addysg (erthygl 29) (2001)⁴ yn fynegiant pellach o'r hawliau i addysg y mae'r ddau Gonfensiwn yn eu gwarantu. Ar sail yr hawliau hyn y mae'n rhaid i ni asesu cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth Addysg heblaw am yn yr Ysgol (EOTAS) yng Nghymru.

Trosolwg o'r ymateb

Mae'r data diweddaraf gan Lywodraeth Cymru (2018)⁵ yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n derbyn EOTAS wedi codi bron bob blwyddyn yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Yn wythnos cyfrifiad ysgol Ionawr 2018, cyfanswm nifer y disgyblion yr adroddwyd eu bod yn derbyn EOTAS wedi'i ariannu gan eu hawdurdod lleol oedd 2,188, neu gyfradd o 3.4 disgybl o bob 1000, sy'n gynydd o 2.6 o bob 1000 o ddisgyblion yn 2013. Y gyfradd hon o 3.4 disgybl o bob 1000 yw'r uchaf ers 2009/10. O'r rhain, roedd gan 86.8% anghenion addysgol arbennig, roedd gan 4 o bob 10 hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac roedd 7 o bob 10 yn fechgyn.

Mae fy ymateb wedi'i seilio'n bennaf ar y gwaith achosion a gefais yn ystod y pedair blynedd diwethaf ynghylch darpariaeth EOTAS. Mae dadansoddiad o'r achosion hyn yn dangos gwerth a phwysigrwydd darpariaeth EOTAS i lawer o blant a phobl ifanc, ac yn amlygu bod modd i ddarpariaeth brydlon, o ansawdd uchel, fod o fudd aruthrol. Fodd bynnag, mae'r achosion hyn hefyd yn amlygu peth arfer gwael a methiannau yn y system gefnogi ehangach i blant. Mae themâu cyffredin rhwng achosion hefyd yn codi cwestiynau ynghylch bylchau posibl o ran polisi a darpariaeth. Mae achosion unigol yn amlygu cymhlethdod bywydau rhai plant yng Nghymru, a'r anawsterau mae rhai plant yn eu hwynebu o ran derbyn y gefnogaeth briodol ar draws asiantaethau i'w galluogi i gael mynediad at addysg. O ganlyniad, yn ogystal â thynnu sylw at themâu allweddol, lle bo hynny'n briodol rwy'n rhannu manylion dienw ynghylch achosion, yn fodd i ddarlunio materion a heriau sy'n codi. Mae'n werth nodi bod nifer o'r heriau hynny yn rhai a nodwyd hefyd yn adroddiad 2014 ynghylch Unedau Cyfeirio Disgyblion⁶ a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd yn swydd Comisiynydd Plant Cymru, ac rwyf wedi amlygu lle mae problemau'n parhau. Mae gen i un pryder

³ <https://www.refworld.org/docid/461b93f72.html>

⁴ [https://www.ohchr.org/EN/Issues/Education/Training/Compilation/Pages/a\)GeneralCommentNo1TheAimsofEducation\(article29\)\(2001\).aspx](https://www.ohchr.org/EN/Issues/Education/Training/Compilation/Pages/a)GeneralCommentNo1TheAimsofEducation(article29)(2001).aspx)

⁵ <https://gweddill.gov.wales/docs/statistics/2018/180725-pupils-educated-other-than-at-school-2017-18-en.pdf>

⁶ https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Right_to_learn_eng-F.pdf

cyffredinol nad yw'n ymwneud â gwaith achosion a dderbyniwyd gan fy swyddfa: y pryder hwnnw yw statws cofrestru rhai darparwyr EOTAS ac rwy'n disgrifio hynny ar ddechrau'r ymateb hwn.

Darparwyr heb eu cofrestru

Rwy'n pryderu bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2016 yn cynnal unedau heb eu cofrestru sy'n addysgu disgyblion oed ysgol gorfodol. Adroddodd Estyn am hyn yn 2007⁷ ac ategu bod hynny'n dal yn wir yn 2016⁸, gan nodi bod mwyafrif yr unedau hyn yn *'ganolfannau cymunedol y mae disgyblion yn mynd iddynt ar gyfer eu 'gwersi gartref'* ac yn ogystal, bod awdurdodau lleol yn comisiynu EOTAS gan ddarparwyr heb eu cofrestru sy'n gweithredu fel ysgolion annibynnol, yn unol â'r diffiniad yn Neddff Addysg 2002. Yn ôl Estyn, *lleiafrif o awdurdodau lleol sy'n comisiynu EOTAS amser llawn ar gyfer grwpiau mawr o ddisgyblion gan ddarparwyr sydd heb eu cofrestru fel ysgolion annibynnol. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy yn cynnal UCDAu heb eu cofrestru. Maent yn rhedeg canolfannau gwersi a chanolfannau eraill heb eu cofrestru i ddarparu addysg am hyd at 25 awr yr wythnos.* Er bod rhai o'r darparwyr hyn sydd heb eu cofrestru o bosib yn cynnig addysg a chefnogaeth ardderchog i blant a phobl ifanc, mae'r ffaith eu bod heb eu cofrestru yn creu perygl diogelu, gan nad ydynt yn dod o dan y rheoliadau sy'n llywodraethu ysgolion annibynnol⁹. Mae'r rheoliadau hynny'n cynnwys rhai gofynion diogelu megis sicrhau gwiriadau datgelu a gwahardd wrth recriwtio staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r sefyllfa hefyd yn codi risg o ran sicrhau ansawdd, gan na fydd y lleoliadau hyn sydd heb eu cofrestru yn cael yr un arolygiadau allanol o'u darpariaeth. Rwy'n ymwybodol bod y Llywodraeth wedi ysgrifennu at holl awdurdodau lleol Cymru, yn dilyn adroddiad Estyn yn 2016, yn nodi y dylai darparwyr fod wedi'u cofrestru, a bod cynnydd ers hynny yn nifer y lleoliadau sydd wedi cofrestru. Rwyf hefyd yn rhagweld y bydd yr adolygiad comisiynu EOTAS ledled Cymru sydd i ddod gan Lywodraeth Cymru yn nodi unrhyw ddefnydd cyson o ddarpariaeth heb ei chofrestru. Ar ben hynny, dylai'r adolygiad hwn amlygu unrhyw gyfle i wella'r trefniadau comisiynu fel bod mwy o eglurder, yn gyntaf ynghylch pa ddisgyblion sy'n derbyn pa ddarpariaeth ledled Cymru, ac yn ail, mwy o dryloywder ynghylch ansawdd y ddarpariaeth hon.

⁷ Estyn (2007) Local education authority practice in monitoring the location of pupils being educated outside the school setting and those missing from education. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein].

⁸ <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

⁹ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2003/3234/introduction/made>

Byddaf hefyd yn codi'r mater hwn yn fy nghyfarfod blynyddol gyda Phrif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, i drafod canfyddiadau Estyn ynghylch y ddarpariaeth EOTAS ers adroddiad thematig 2016.

Gwaith Achosion Ymchwiliadau a Chyngor

Ers i mi ddod yn Gomisiynydd rwyf wedi derbyn nifer o achosion trwy fy Ngwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn neu'n ceisio darpariaeth EOTAS. Ar ôl adolygu'r holl gofnodion achosion a allai fod yn berthnasol o'n system rheoli gofal, rwyf wedi nodi 25 achos perthnasol, y cyfan wedi dod i law ers 2015, i'w dadansoddi mewn perthynas â'r ymchwiliad yma.

Enghreifftiau o arfer da

Yn ddieithriad, pan fydd pobl ifanc, teuluoedd neu weithwyr proffesiynol yn cysylltu â'm gwasanaeth gwaith achosion, mae problemau wedi codi. Fodd bynnag, trwy'r gwaith achosion hwn, a hefyd trwy waith cyfranogol fy swyddfa, mae fy nhîm a minnau wedi nodi sawl enghraifft o arfer da yn y ddarpariaeth EOTAS. Dyma restr o rai o'r enghreifftiau hynny:

- Darparu lleoliadau deul, er enghraifft gall amserlen lai yn yr ysgol, yn cael ei hategu gan wersi gartref, fod yn ffordd ddefnyddiol o weithredu. Gall hyn gefnogi plant a phobl ifanc i gadw mewn cysylltiad ag addysg brif ffrwd mewn modd y gallan nhw ymdopi ag e, heb golli eu cyfleoedd i ddysgu.
- Gall trefniant ysgol hyblyg alluogi plant a phobl ifanc i gadw mewn cysylltiad â lleoliad prif ffrwd mewn modd y gallan nhw ymdopi ag e. Mae rhai Penaethiaid yn hapus i ganiatáu trefniant ysgol hyblyg, ond mae eraill yn gwrthod oherwydd pryderon y bydd hynny'n edrych yn wael o ran eu ffigurau presenoldeb yn yr ysgol. Mae'r adolygiad sydd ar ddod o'r Canllawiau ar y codau presenoldeb yn yr ysgol¹⁰ yn gyfle i adlewyrchu hyn, a gallai olygu bod mwy o Benaethiaid yn teimlo eu bod yn gallu cynnig y dewis hwn i deuluoedd er mwyn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn aros mewn addysg brif ffrwd.
- Gall gwersi gartref fod yn bont bwysig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd rhwng lleoliadau, fe all olygu nad yw plant yn wynebu bylchau yn eu haddysg, a gall gynnig ail gyfle i lwyddo, fel y nodwyd gan Estyn.¹¹

¹⁰ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/guidance-on-school-attendance-codes.pdf>

¹¹ <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

- Gall llwybrau 14-19, cyfuno dysgu yn yr ysgol a'r coleg, helpu pobl ifanc i gadw mewn cysylltiad ag addysg, a datblygu sgiliau newydd a phennu targedau a dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn ategu sylw Estyn y gall cyrsiau galwedigaethol a gynigir trwy ddarpariaeth EOTAS alluogi pobl ifanc i gael profiadau dysgu ystyrion a chaffael cymwysterau.¹²
- Mae grwpiau meithrin disgyblion yn cynnig cefnogaeth hanfodol i lawer o blant a phobl ifanc. Yn ddiweddar rwyf wedi ymweld ag unedau meithrin disgyblion yn Ysgol Gyfun Fitzalan (Caerdydd) ac Ysgol Ferched Lewis (Caerffili), sydd fel ei gilydd wedi eu lleoli yn nhŷ'r gofalwr gynt, ar dir yr ysgol, ac yn darparu lle ar gyfer disgyblion agored i niwed cyn yr ysgol ac yn ystod amser egwyl, yn ogystal â darparu cefnogaeth un-i-un a grwpiau. Mae ysgolion cynradd Pillgwenlly (Casnewydd), Glancegin (Gwynedd) a Phriordy Monkton (Sir Benfro) wedi sefydlu dosbarthiadau meithrin disgyblion yn eu hysgolion, y gall plant fynd iddynt yn rhan amser neu'n llawn amser. Mae'r rhain yn darparu ar gyfer plant sydd ag ymddygiad heriol neu rai sydd angen cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i fod yn rhan o ystafell ddosbarth brif ffrwd. Ym mhob un o'r lleoliadau hyn, y bydd llawer mwy o enghreifftiau ohonynt ledled Cymru, mae ysgolion yn galluogi plant i gael eu cynnwys ac yn atal gwaharddiadau ac achosion o ddiffyg presenoldeb. Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi disgrifio wrth fy swyddogion sut mae'r grwpiau hyn yn yr ysgol wedi galluogi teuluoedd i adeiladu perthnasoedd cryf, llawn ymddiriedaeth gyda gweithwyr proffesiynol.
- Yn fwy cyffredinol, mae gweithwyr proffesiynol cefnogol, y gellir ymddiried ynddynt, sy'n gwrandao ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn chwarae rhan amhrisiadwy mewn lleoliadau EOTAS, ac mewn ysgolion. Mae'r berthynas rhwng plant a chynorthwyyr cynnal dysgu yn rhai hanfodol, ac mae'n bwysig buddsoddi ynddynt. Mae teuluoedd wedi disgrifio wrth fy swyddfa sut mae'r perthnasoedd hyn wedi cadw plentyn mewn ysgol brif ffrwd.
- Gall cefnogi plant a phobl ifanc i ddychwelyd yn raddol i addysg brif ffrwd fod yn fuddiol, ac mae unedau grwpiau bach yn aml yn chwarae rhan bwysig.
- Gall dulliau trawsasiantaeth o weithredu fod yn werthfawr dros ben wrth gefnogi plant i aros mewn lleoliadau prif ffrwd a ffynnu yno. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd y Tîm o Gwmpas y Teulu (TAF) a'r Tîm o Gwmpas y Plentyn (TAC).
- Gall ymyriadau person-ganolog dwys, wrth weithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd, gefnogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu o'r newydd â lleoliadau addysg. Enghraifft o hyn

¹² [Ibid](#)

yw'r dull gweithredu seiliedig ar asedau a fabwysiadwyd gan Sylfaen Cymunedol, elusen datblygu cymunedol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu gan ymddiriedolaethau elusennol, Plant mewn Angen a'r Loteri Fawr, yn gweithio'n ddwys gyda rhyw 40 o bobl ifanc a'u teuluoedd bob blwyddyn. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddadgofrestru neu a ddadgofrestrodd yn ddiweddar, ac sy'n awyddus i ddychwelyd o dan gyfrifoldeb yr awdurdod lleol er mwyn cael mynediad at addysg mewn lleoliadau ysgol neu trwy ddarpariaeth EOTAS. Mae rhai Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru yn datblygu dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant ac yn eu gwreiddio ar draws y sefydliad, yn aml gyda chefnogaeth fy nghynlluniau Llysgenhadon. Mae Uned Amgen y Bont ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn enghraifft o hynny. Yn y lleoliad hwn mae pobl ifanc yn cael eu galluogi i chwarae rhan weithredol yn y penderfyniadau a wneir ac i ddeall a phrofi eu hawliau fel y gwarantir gan CCUHP.

Trosolwg o'r materion canolog

Mewn niferoedd, mae trosolwg o'r materion canolog a ddaeth i'r amlwg yn fy achosion

Ymchwiliadau a Chyngor yn dangos y canlynol:

- Mae 10 achos yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc nad oedd eu darpariaeth EOTAS yn ddigonol, neu nad oeddent yn cael mynediad i unrhyw ddarpariaeth addysg o gwbl.
- Mae 7 achos (o leiaf) yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).
- Mae 5 achos yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc sy'n derbyn neu'n disgwyl am gefnogaeth iechyd meddwl gan CAMHS.
- Mae 3 achos yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc a gafodd eu gwahardd am gyfnod penodol neu'n barhaol.
- Mae 3 achos yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc sy'n disgwyl am asesiad statudol ar gyfer AAA, neu y gwrthodwyd hynny iddynt.
- Roedd 3 achos yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc oedd wedi bod yn derbyn gofal.
- Roedd 2 achos yn ymwneud â phobl ifanc oedd wedi derbyn yr un ddarpariaeth EOTAS heb adolygiad gweithredol.
- Roedd 1 achos yn ymwneud â pherson ifanc a gafodd wersi gartref oherwydd nad oedd lle ar gael yn yr uned arbenigol a argymhellwyd ar eu cyfer.
- Roedd 1 achos yn ymwneud â pherson ifanc oedd yn derbyn gwersi gartref oherwydd bwlio mewn lleoliad blaenorol.

- Roedd 1 achos yn ymwneud â phlentyn yn derbyn darpariaeth EOTAS oherwydd anghenion meddygol cymhleth.
- Roedd 1 achos yn ymwneud â diffyg cyfranogiad person ifanc mewn penderfyniadau ynghylch lleoliad eu haddysg
- Roedd 1 achos yn ymwneud â pherson ifanc oedd yn methu cael mynediad i addysg Gymraeg trwy'r ddarpariaeth EOTAS.
- Roedd 1 achos yn ymwneud â methiant i ddarparu gwybodaeth i'r plentyn a'r teulu.

Darpariaeth annigonol neu ddim darpariaeth

Byddaf yn disgrifio dau achos sy'n gysylltiedig â'r mater hwn, er mwyn amlinellu rhai o'r cymhlethdodau a'r materion sy'n codi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael mynediad i EOTAS.

Mewn un achos sy'n parhau nid yw person ifanc yn ei arddegau cynnar yn cael mynediad i unrhyw addysg ar hyn o bryd. Mae gan y person ifanc yma anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sydd heb gael eu diwallu mewn lleoliadau prif ffrwd yn y gorffennol. Mae lleoliadau arbenigol yn y gorffennol hefyd wedi methu, ac yn fwyaf diweddar rhoddwyd lleoliad EOTAS amgen i'r person ifanc yma, gyda ffofws ar ddysgu ymarferol ac yn yr awyr agored. Er bod y lleoliad hwn yn cael ei ddisgrifio fel un sy'n cynnwys addysg llythrennedd a rhifedd, teimlai'r person ifanc fod yr elfen hon o'i addysg ar goll, ac roedd yn pryderu am effaith hynny yn y dyfodol. Roedd y person ifanc hefyd yn cael bod y lleoliad yn ailadroddus dros ben, gan fod yr un cwrs o ddysgu wedi digwydd sawl tro dros gyfnod estynedig, ac roedd diffyg hyblygrwydd i alluogi dysgu arall i ddigwydd.

Datgysylltodd y person ifanc ei hun o'r ddarpariaeth a gofyn am ddychwelyd i'r ysgol, ond am sawl rheswm cymhleth, ni farnwyd bod hyn yn briodol. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn chwilio am ddarpariaeth EOTAS interim, ac mae fy swyddfa'n dal i bwysu am gael hyd i leoliad arall addas yn gyflym.

Mewn achos arall, sydd bellach wedi cael ei ddatrys, roedd plentyn oed cynradd hŷn yn gwrthod mynd i'r ysgol ac yn colli addysg. Roedd gan y plentyn yma ddiagnosis o ASD, ond gwrthodwyd asesiad statudol. Roedd gan y plentyn hefyd lefel uchel o orbryder ac roedd yn cael cefnogaeth gan CAMHS. Sicraodd ymyrraeth gan fy swyddfa fod asesiad statudol yn digwydd a bod gwersi'n cael eu darparu gartref. Yn sgîl ymchwiliadau parhaus gan fy swyddfa, cafodd y plentyn yma le mewn uned cyfeirio disgyblion, lle mae'n ffynnu, ac mae bellach wedi cynyddu i oriau amser llawn, bron â bod. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod lefel uchel o wrthwynebiad gan yr awdurdod i gynnig y lle hwn,

a bod ei sicrhau wedi galw nid yn unig am ddwy flynedd o ymyrraeth gyson ar ran fy swyddfa, ond hefyd yn adlewyrchu dyfalbarhad a phenderfyniad y teulu.

Mae'r ddau achos yma yn cyfeirio at nifer o faterion yr wyf yn eu hamlinellu isod, y mae llawer ohonynt yn cael eu hadlewyrchu mewn achosion eraill o'r math yma y bu fy swyddfa'n ymateb iddynt.

Bylchau yn y ddarpariaeth

Ategir yr achosion uchod lle roedd y plentyn yn profi bwlch yn y ddarpariaeth addysgol, sefyllfa sydd wedi codi mewn achosion eraill hefyd, gan ganfyddiad Estyn bod lleiafrif o ddisgyblion '*ddim yn mynd i'r ysgol nac unrhyw ddarpariaeth arall am gyfnodau hir cyn cychwyn ar EOTAS*'¹³. Mae'r ffaith bod hyn wedi codi mewn achosion diweddar yn dangos bod argymhelliad Estyn yn 2016 y dylai awdurdodau lleol '*ddarparu addysg addas i ddisgyblion o fewn 15 niwrnod i wneud penderfyniad y dylent dderbyn EOTAS*', yn dal heb gael ei gyflawni ym mhob achos. Yn wythnos cyfrifiad Ionawr 2018, cofnodwyd bod 32 o ddisgyblion heb unrhyw ddarpariaeth addysgol.¹⁴ Mae'n rhaid ymdrin â hyn er mwyn cyflawni dyletswyddau awdurdodau lleol i ddarparu addysg addas ar gyfer plant oed ysgol gorfodol a all fod, oherwydd salwch, gwahardd o'r ysgol neu reswm arall, heb dderbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer. O dan adran 19(6) o Ddeddf Addysg 1996 y diffiniad o addysg addas yw addysg 'effeithlon' sy'n addas ar gyfer oed, gallu, anian, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA) sydd gan y plentyn (neu'r person ifanc). Mae'n amlwg nad yw bwlch sylweddol yn y ddarpariaeth yn cyflawni'r rhwymedigaeth hon, na'n rhwymedigaethau o ran hawliau plant i dderbyn addysg a amlygwyd ar ddechrau'r ymateb hwn. Fodd bynnag, fel y dangosir isod, mae'r achosion hyn hefyd yn dangos, hyd yn oed pan gaiff lleoliadau eu darparu, nad yw'r rhwymedigaethau hyn bob amser yn cael eu cyflawni.

Cwricwlwm Eang a Chytbwys

Nid ymddengys bod y ddarpariaeth addysgol mewn lleoliadau EOTAS bob amser yn ystyrlon i bobl ifanc: roedd hyn yn amlwg yn yr achos cyntaf a amlinellwyd uchod, ond mae hefyd wedi bod yn berthnasol mewn sawl achos arall a ddaeth at sylw fy swyddfa. Nid yw pobl ifanc yn gwerthfawrogi ailadrodd cwricwlwm o weithgareddau sydd ddim yn newid. Lluniwyd peth darpariaeth EOTAS i bobl

¹³ <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

¹⁴ <https://gweddill.gov.wales/docs/statistics/2018/180725-pupils-educated-other-than-at-school-2017-18-en.pdf>

ifanc ei dilyn am gyfnod byr, ond pan fydd pobl ifanc yn profi'r ddarpariaeth hon am gyfnod estynedig, mae angen i ddarparwyr sicrhau bod hyblygrwydd yn y dysgu er mwyn i'r plant a'r bobl ifanc fedru datblygu a gwneud cynnydd. Mae fy ngwaith achosion yn dangos nad yw rhai lleoliadau amgen fel yr un a ddisgrifiwyd (ac eraill) yn darparu cyfleoedd neu gymwysterau o'r fath yn hwylus i bobl ifanc, a chefnogir hynny gan adroddiad Estyn yn 2016, lle canfuwyd, *'At ei gilydd, nid yw'r ddarpariaeth EOTAS yn rhoi i ddisgyblion yr un mynediad i'r pethau y gallant eu hawlio o ran addysg â'u cyfoedion. Mae'n rhaid i leiafrif o ddisgyblion aros am fwy na 15 niwrnod i gael mynediad i'r ddarpariaeth, i dderbyn cwricwlwm cyfyngedig, neu i ddilyn cyrsiau nad ydynt yn ddigon heriol.'*¹⁵ Mae hyn yn annerbyniol ac yn achos clir o dorri hawliau dynol plant o dan CCUHP, yn fwyaf amlwg Erthyglau 28 a 29, sy'n nodi hawl pob person ifanc i ddatblygu eu doniau a'u sgiliau hyd yr eithaf sy'n ddelfrydol.

Nododd y ddogfen ymgynghori ar gyfer Ein Cenhadaeth Genedlaethol: Cwricwlwm

Trawsffurfiannol¹⁶ y canlynol yng nghyswllt Unedau Cyfeirio Disgyblion:

'Nid oes rhai i Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd. Serch hynny mae gofyn bod UCDau yn cyflwyno 'cwricwlwm eang a chytbwys', a bydd y gofyniad hwn yn parhau mewn perthynas â threfniadau'r cwricwlwm newydd. Mae rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion)(Cymhwyso Deddfiadau)(Cymru) 2007 yn cymhwyso un elfen o'r cwricwlwm sylfaenol i UCDau – mae'n gofyn bod addysg rhyw yn cael ei addysgu i ddisgyblion oed uwchradd. Bydd hyn hefyd yn parhau i ddigwydd.'

Er nad wyf yn anghytuno nad yw bob amser yn briodol i Unedau Cyfeirio Disgyblion gyflwyno'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd, dylai pob darpariaeth EOTAS fod yn gweithio tuag at sicrhau bod y cwricwlwm 'eang a chytbwys' mae'n ei ddarparu yn cyfateb cymaint â phosibl i'r hyn y gall plant a phobl ifanc eraill ei hawlio, a byddwn i'n gobeithio bydd y gofynion o ran 'addysg rhyw' mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu diweddarau, yn unol â chynigion y cwricwlwm newydd, fel bod pobl ifanc yn derbyn hawl statudol i gael addysg perthnasoedd a rhywioldeb. Mae'r dystiolaeth gyfredol yn dangos bod angen gwneud mwy i sicrhau bod lleoliadau EOTAS yn cyflawni eu dyletswyddau, a dylid ystyried bod ffocws cenedlaethol a lleol ar hyn yn rhan annatod o'r rhaglen Trawsffurfio Anghenion Dysgu Ychwanegol, a hefyd o'r dysgu proffesiynol a wneir i wreiddio'r cwricwlwm newydd.

¹⁵ <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

¹⁶ <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-02/consultation-document-transformational-curriculum-v2.pdf>

Cymwysterau Ystyrion

Ar ben hynny, gall fod gan bobl ifanc a'r rhai sy'n eu cefnogi bryderon dealladwy ynghylch pa gymwysterau sydd ar gael trwy leoliadau EOTAS. Canfu ymchwiliad Estyn fod disgyblion sy'n derbyn EOTAS, yn gyffredinol, yn gweithio tuag at gyflawni cymwysterau lefel 1 a 2 seiliedig ar gredydau sy'n cyfateb i TGAU.¹⁷ Fodd bynnag, bydd newidiadau i'r fframwaith cymwysterau yn lleihau hyn i lefel sy'n cyfateb i ddau TGAU, ac rwy'n gobeithio bod lleoliadau'n ystyried y ffordd orau o alluogi pobl ifanc i gaffael cymwysterau ychwanegol o ganlyniad i'r newid hwn. Mae'n bwysig bod pob person ifanc yn cael cyfle am brofiadau a chymwysterau a fydd yn eu galluogi i barhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl oed ysgol gorfodol. Mae fy ngwaith achosion yn dangos nad yw rhai lleoliadau amgen fel yr un a ddisgrifiwyd (ac eraill) yn darparu cyfleoedd neu gymwysterau o'r fath yn hwylus i bobl ifanc, a chefnogir hynny eto gan adroddiad Estyn, a ganfu, *nad yw disgyblion sy'n derbyn EOTAS fel arfer yn cael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys sy'n eu galluogi i gaffael cymwysterau sy'n ymateb i'w hanghenion a'u potensial. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n cael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Mae diffyg adnoddau a chyfleusterau ar gyfer pynciau megis gwyddoniaeth yn cyfyngu'r cwricwlwm ar gyfer gormod o'r disgyblion hyn. Mae'r diffyg hwn yn golygu bod disgyblion yn colli agweddau pwysig ar addysg, a gall hynny effeithio ar eu cyfleoedd yn y dyfodol o ran cyflogaeth a hyfforddiant.*¹⁸ Mae'n rhaid gwneud mwy i ymdrin â hyn ar lefel genedlaethol a lleol.

Llwybrau 14-19

O dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, fel y'i newidiwyd gan Reoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol i Ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4)(Cymru)(Newidiwyd) 2014, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ffurfio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Ar draws Cymru mae rhai plant yn dal i gael eu cefnogi ar lwybrau 14-19, lle maent yn cyfranogi mewn lleoliad deul rhwng ysgol a choleg: yn datblygu llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol ac yn datblygu sgiliau trwy'r gwersi yn y coleg. Mae hyn yn werthfawr i lawer o bobl ifanc gan ei fod yn eu galluogi i gyflawni cymwysterau TGAU ochr yn ochr â dysgu sgiliau galwedigaethol, a hefyd yn darparu profiad o'r math o gyrsiau sydd ar gael mewn lleoliadau ôl-16, sy'n amhrisiadwy ar gyfer pobl ifanc sy'n cynllunio'u dyfodol ar ôl oed ysgol gorfodol. Fodd bynnag, mae fy swyddfa wedi nodi bod llai o bobl ifanc sy'n cysylltu â m Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn cael cynnig cyfle i ddilyn llwybrau 14-19 ac nad yw gwybodaeth am hynny fel opsiwn yn cael ei chyfleu i deuluoedd sy'n

¹⁷<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

¹⁸<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

cysylltu â'm gwasanaeth gwaith achosion pan fydd eu plant yn cael trafferth yn yr ysgol neu wedi cael eu gwahardd. Adlewyrchir hynny gan gyd-destun polisi lle'r ymddengys bod llwybrau 14-19 yn cael eu hesgeuluso i raddau helaeth yn y tirlun polisi addysg, gan nad ydynt yn rhan o'r canllawiau drafft ar gyfer y cwricwlwm sy'n datblygu¹⁹ na'r polisi addysg ehangach a ddisgrifiwyd yn Ein Cenhadaeth Genedlaethol²⁰. Mae Estyn hefyd yn adrodd mai opsiynau cyfyngedig a roddir i bobl ifanc a'u teuluoedd o ran lleoliadau i'r dyfodol a bod y cyfleoedd dysgu yn cael eu cyfyngu'n rhy aml gan yr hyn sy'n digwydd bod ar gael trwy ddarparwr lleol, yn hytrach nag fel rhan o lwybr a gynlluniwyd.²¹ Carwn annog y Llywodraeth i gynnwys ystyriaeth i'r llwybrau hyn wrth ddatblygu asesiadau a chymwysterau sy'n digwydd ar hyn o bryd i gefnogi trefniadau'r cwricwlwm newydd.

Cyfranogiad

Elfen arall yn yr achosion hyn, a adlewyrchir mewn llawer o rai eraill a ddaeth i'm sylw, yw cyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae CCUHP yn gwarantu hawliau cyfranogiad i bob plentyn a pherson ifanc. Mae cyfranogiad yn un o egwyddorion trawstoriadol y Confensiwn, sy'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl hawliau eraill. Yr hawl gyfranogol allweddol yw Erthygl 12, hawl plentyn i fynegi barn ar benderfyniad sy'n effeithio ar ei fywyd a bod y farn honno'n cael pwys dyledus wrth wneud y penderfyniad. Ymhlith yr hawliau cyfranogol eraill mae'r hawl i gael gwybodaeth gywir a rhyddid mynegiant (Erthyglau 13 ac 17), yr hawl i gyfranogi mewn grwpiau a chwrdd â ffrindiau (Erthygl 15), a'r hawl i gyfranogi mewn gweithgaredd diwylliannol, crefydd, chwaraeon a chwarae (Erthyglau 14 a 31).

Mae gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o ddarpariaeth EOTAS, er enghraifft gwersi gartref, wedi rhoi gwybod i'm swyddfa bod plant a phobl ifanc yn aml yn teimlo nad ydynt yn cael gwrandawriad nac yn gallu bod yn rhan o benderfyniadau. Er enghraifft, pan fydd darpariaeth diwtora yn cael ei hadolygu gan banel, gwahoddir y person ifanc a'r tiwtor i rannu eu barn am y ddarpariaeth a mynegi beth hoffent ei weld yn digwydd nesaf. Ond wedi'r cyfarfod, ni roddir adborth i'r tiwtor na'r person ifanc: ni chânt eu hysbysu ynghylch pa benderfyniad a wnaed na pham, ac mae'r ddarpariaeth yn parhau heb newid. Mae gweithwyr proffesiynol wedi dweud wrth fy swyddogion y byddant wedyn yn darparu'r un wybodaeth yn union yn yr adolygiad nesaf, ond eto na fyddant yn cael adborth yn dilyn y cyfarfod. Mae fy ngwaith achosion hefyd wedi cynnwys enghreifftiau o deuluoedd sydd ddim yn derbyn gwybodaeth ac sy'n aneglur iawn ynghylch penderfyniadau a chymau nesaf. Mae darparu gwybodaeth hygyrch yn dilyn penderfyniadau yn elfen greiddiol o'r Safonau Cyfranogiad

¹⁹ <https://hwb.gov.wales/draft-curriculum-for-wales-2022/a-guide-to-curriculum-for-wales-2022/>

²⁰ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf>

²¹ <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

Cenedlaethol²² ac yn hanfodol i sicrhau hawliau cyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae hyn yn arfer gwael ac ni fydd o les i blant na phobl ifanc.

Yr angen am adolygu yn barhaus

Mae hefyd yn bwysig, lle mae plant a phobl ifanc yn derbyn gwersi gartref ar sail un-i-un, bod hynny'n destun adolygu gweithredol, parhaus, lle mae barn a phrofiadau'r person ifanc yn ystyriaeth allweddol. Mae gwersi unigol yn rhan werthfawr o gynnig cyffredinol EOTAS, ac i rai plant a phobl ifanc mae'n cynnig ffordd hanfodol o sicrhau nad ydynt yn colli addysg. Fodd bynnag, mae gwersi unigol yn creu rhwystrau posibl o ran gallu pobl ifanc i gael mynediad i'r hawliau cyfranogol eraill pwysig, sef chwarae, diwylliant, a chwrdd â ffrindiau. Mae bod heb fynediad i'r rhain yn cael effeithiau uniongyrchol, tymor canolig a thymor hir ar y plentyn. Mae'n rhaid i unrhyw ddarpariaeth (megis gwersi unigol) lle mae plant wedi'u hynysu oddi wrth blant eraill, gael ei hadolygu'n barhaus, a dylid ystyried opsiynau eraill, megis gwersi grŵp, neu ymuno â lleoliad ar sail ran amser neu hyblyg yn rheolaidd a thrafod hynny gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Canfu adroddiad Estyn '*nad yw disgyblion sy'n derbyn EOTAS bob amser yn derbyn yr addysg amser llawn (fel arfer 25 awr yr wythnos) y mae ganddynt hawl i'w derbyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y mae awdurdodau lleol yn darparu gwersi gartref ar eu cyfer yn cael eu haddysgu am uchafswm o 10 awr yr wythnos.*'²³

Mae hyn yn adleisio'r profiad a welwyd yn fy ngwaith achosion, lle cynigir gwersi gartref fel arfer ar sail lawer mwy cyfyngedig na'r hyn y mae gan blant hawl i'w dderbyn. Weithiau mae hynny am reswm da, er enghraifft, dyna'r cyfan y gall y plentyn ymdopi ag e am resymau meddygol. Ond mae'n tanlinellu ymhellach yr angen am adolygu gwersi gartref yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i newidiadau cyson ym mywydau plant a phobl ifanc.

Yn yr achos a amlinellwyd uchod, bu'n rhaid wrth ddwy flynedd i sicrhau lleoliad ffurfiol. Mewn achos arall, roedd plentyn wedi bod allan o leoliad ers dwy flynedd, ond yn dilyn ymchwiliad gan fy swyddfa, cynigiwyd lle i'r plentyn mewn lleoliad o fewn naw wythnos. Os nad yw plentyn neu berson ifanc mewn unrhyw leoliad gyda phlant eraill mae'n rhaid gwneud penderfyniadau rheolaidd a gweithredol ynghylch eu darpariaeth, gan gadw lles pennaf y plentyn yn ganolog.

Yr angen am gefnogaeth AAA/ADY briodol

²² <http://www.childreninwales.org.uk/our-work/participation/participation-standards/>

²³ <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

Mae'r achosion hyn hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd asesu cynnar ar gyfer AAA a sicrhau cefnogaeth ychwanegol briodol, gan amlygu'r heriau a wynebir gan rai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth geisio sicrhau asesiad statudol, hyd yn oed. Rwy'n datblygu hyn yn fy adran isod ynghylch anghenion plant ifanc, ond mae'n bwysig, beth bynnag yw eu hoed, bod ymateb prydlon, sy'n cael ei arwain gan anghenion, i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth gywir. Mae hynny yr un mor hanfodol mewn lleoliadau EOTAS ag mewn lleoliadau addysg eraill. Mae fy ngwaith achosion yn dangos nad yw plant a phobl ifanc sy'n derbyn EOTAS yn cael cefnogaeth ddigonol ar gyfer ADY, a bod hynny'n digwydd yn rhy aml. Ategir hyn eto gan adolygiad Estyn, *Nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn aml yn derbyn y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt, hyd yn oed os yw hynny wedi'i nodi mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid ydynt yn derbyn yn gyson y gefnogaeth arbenigol amlasiantaeth y mae arnynt ei hangen.*²⁴ Eto, nid canfyddiad newydd yw hwn, ond mae'n ategu adroddiad Comisiynydd Plant 2014 ar Unedau Cyfeirio Disgyblion²⁵, lle dangoswyd bod lleoliadau UCDAu yn cael bod diwallu ystod a dyfnder anghenion ychwanegol dysgwyr yn heriol, a bod diffyg capasiti o ran staff a mynediad at hyfforddiant priodol. Mae rhaid i'r rhaglen Trawsffurfio ADY sicrhau ffocws ar leoliadau EOTAS i sicrhau bod hynny'n derbyn sylw.

Diffyg darpariaeth amserol ar draws gwasanaethau

Roedd dau o'r plant yn yr achosion a restrwyd gennyf yn disgwyl am asesiadau statudol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig, a gofynnodd llawer o rai eraill yn ddiweddarach am asesiad statudol ar sail cyngor fy swyddogion. Roedd dau o'r achosion a restrwyd uchod yn cynnwys plant oedd wedi cael eu cyfeirio at CAMHS ac a oedd yn aros i gael eu gweld gan y gwasanaeth. Mae teulu un plentyn wedi cael gwybod bod angen aros am 14 mis ar gyfer asesiad niwroddatblygiadol. Hysbyswyd teulu arall fod eu plentyn yn rhif 447 ar y rhestr aros ar gyfer y Llwybr ASD ar gyfer asesiad awtistiaeth. Argymhellwyd bod un person ifanc oedd â gorbryder difrifol yn cael lle mewn uned arbenigol, ond roedd hi'n orlawn, ac o ganlyniad roedd yn cael gwersi gartref.

Mae'r ffigurau hyn yn amlygu'r canlynol:

- Mae oedi o ran y gwasanaethau cymorth ehangach yn golygu bod ymyrraeth gynnar briodol yn fwy anodd: nid yw gweithwyr addysg proffesiynol bob amser yn gallu ymateb i anghenion iechyd meddwl heb gyngor gan arbenigwyr allanol;

²⁴ <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

²⁵ https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Right_to_learn_eng-F.pdf

- Nid oes gan unedau arbenigol bob amser ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol;
- Mae'n rhaid i ddarpariaeth addysg gael ei harwain gan anghenion, yn hytrach na dibynnu ar ddiagnosis. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n arbennig o annheg bod teuluoedd yn cael neges bod angen iddynt ddisgwyl am ddiagnosis cyn unrhyw asesiad statudol o angen addysgol. Mae teuluoedd hefyd wedi esbonio wrthyf fi eu bod yn gallu dioddef rhwystredigaeth bellach yn y sefyllfaoedd hyn gan y byddant weithiau yn ceisio asesiad preifat i gyflymu'r prosesau, ond yna'n darganfod nad yw awdurdodau lleol yn cydnabod diagnosis a gafwyd yn breifat.

Mae hyn yn ailadrodd canfyddiadau adroddiad fy rhagflaenydd yn 2014 ar Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau), sef bod *“Gormod o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol yn cyrraedd yr UCD ar adeg pan fo’u problemau wedi bod heb gefnogaeth ac wedi esgaladu i bwynt lle mae ymgysylltu ag addysg yn arbennig o anodd.”*²⁶ Adroddodd Estyn hefyd fod bron pob awdurdod lleol yn profi anawsterau i sicrhau bod disgyblion sy’n derbyn EOTAS yn cael mynediad at arbenigedd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). *Nid yw staff yn cael y cyngor a’r arweiniad arbenigol angenrheidiol i gefnogi anghenion disgyblion.*²⁷ Yn ogystal ag amlygu’r angen am adnoddau digonol i CAMHS, mae hyn hefyd yn amlygu y dylid cynnwys lleoliadau EOTAS yng ngwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar ddull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant. Sonir am leoliadau EOTAS yn adran ragarweiniol y fframwaith drafft dull ysgol gyfan, ond mae angen iddynt gael lle mwy amlwg ar hyd y fframwaith a’r meddylfryd y tu ôl i’r gwaith hwn. Er fy mod i’n gwerthfawrogi y bydd y canllaw dull gweithredu ysgol gyfan yn targedu ysgolion a gynhelir yn bennaf, dylid ystyried lleoliadau EOTAS hefyd fel cynulleidfa arfaethedig, a dylid gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â lleoliadau EOTAS yn y gwaith hwn. Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru rannu gyda mi sut bydd y canllawiau hyn yn cael eu rhannu gyda lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal er mwyn annog ymdrech ddigonol i wneud y lleoliadau hynny’n ymwybodol o’r dull gweithredu.

Darpariaeth yn Gymraeg

Roedd un o’r hachosion yn ymwneud â phlentyn oedd yn siarad Cymraeg, nad oedd yn gallu cael mynediad i unrhyw ddarpariaeth EOTAS trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae hon yn

²⁶ https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Right_to_learn_eng-F.pdf

²⁷ <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20remit%20report.pdf>

broblem lawer ehangach. Fel y nodwyd gan Estyn²⁸, mae diffyg cenedlaethol o ran darpariaeth EOTAS trwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddwn i'n siomedig nad oedd rheoliadau a chanllawiau drafft Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddiweddar yn cyfeirio at leoliadau EOTAS, ac amlygodd fy ymateb i'r ymgynghoriad yr elfen hon a anghofwyd. Mae'n hanfodol nad yw plant a phobl ifanc sydd eisoes yn wynebu heriau ym myd addysg yn wynebu rhwystr ychwanegol methu â chael mynediad at addysg yn eu dewis iaith. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn torri Erthygl 30 o CCUHP, sy'n diogelu hawliau'r rhai sy'n siarad ieithoedd brodorol i dderbyn addysg yn eu hiaith eu hunain. Amlygodd adroddiad Estyn hefyd angen hollbwysig am ddarparu addysg Gymraeg mewn lleoliadau EOTAS. Mae Estyn hefyd yn nodi bod mynediad anghyson at addysgu pynciau craidd yn golygu nad oedd hyd yn oed un enghraifft yn eu hymchwiliad yn 2016 o ddisgybl yn dilyn cwrs wedi'i achredu yn Gymraeg, ac nad oedd dysgu yn Gymraeg wedi'i alluogi mewn rhai lleoliadau, ffaith oedd yn torri polisi iaith dwyieithog yr awdurdod lleol dan sylw. Mae hyn yn cyfeirio at angen am ddarparu mynediad at ddysgu Cymraeg mewn lleoliadau EOTAS cyfrwng Saesneg yn ogystal, er mwyn osgoi cyfle anghyfartal.

Gwaith achosion cysylltiedig â phlant ifanc (8 oed a than hynny)

Yn ogystal â'r achosion cysylltiedig ag EOTAS a restrwyd uchod, cefais fwy na 20 o achosion yn ystod y 18 mis diwethaf oedd yn ymwneud â phlant 8 oed a than hynny lle codwyd pryderon difrifol ynghylch a yw plant yn cael cefnogaeth briodol yn eu darpariaeth addysg. Rwy'n codi'r rhain fel grŵp ar wahân oherwydd eu bod yn ymwneud â phlant ym mlynnyddoedd y Cyfnod Sylfaen (er bod y plant 8 oed yng nghyfnod allweddol 2 ar adeg cysylltu â'm swyddfa, roedd gan bob un ohonynt anawsterau oedd wedi parhau ers blynnyddoedd). Codwyd materion penodol gan y grŵp yma o blant ifanc: yn gyntaf, nad yw'r ddarpariaeth EOTAS yn cael ei ddarparu'n gyffredinol ar gyfer yr ystod oed yma, fel mae data diweddaraf y Llywodraeth yn dangos²⁹; yn ail, mae'r achosion hyn yn amlygu rhai o'r rhesymau pam mae angen darpariaeth EOTAS ar blant yn ddiweddarach yn yr ysgol, ac yn drydydd, mae'r achosion hyn yn dangos bod angen ymyriadau cynnar iawn er mwyn rhoi'r gefnogaeth orau i'r plant hyn. Elfen hollbwysig yn hyn o beth yw'r angen am adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gynnar, a ddarparu cefnogaeth seiliedig ar anghenion ar unwaith.

Profiadau plant ifanc

Mewn sawl un o'm hachosion cysylltiedig â phlant ifanc bu pryderon y gallai'r plant achosi niwed sylweddol iddynt eu hunain, i blant eraill neu i oedolion. Mae'r pryderon hyn yn aml wedi'u seilio ar

²⁸ Ibid.

²⁹ <https://gweddiill.gov.wales/docs/statistics/2018/180725-pupils-educated-other-than-at-school-2017-18-en.pdf>

achosion blaenorol lle cafodd plant eraill neu oedolion eu hanafu. Mewn un achos roedd hynny wedi arwain at anaf oedd yn galw am driniaeth yn yr ysbyty, ac mewn achosion eraill bu'n rhaid troi at yr heddlu. Mae llawer o'r plant ifanc hyn hefyd wedi rhedeg i ffwrdd o leoliadau ysgol. Mewn ymateb, mae rhai o'r plant ifanc hyn wedi cael eu hynysu'n gyfangwbl oddi wrth eu cyfoedion yn yr ysgol, neu wedi cael eu gwahardd droeon. Nid yw'r data diweddaraf sydd ar gael ynghylch gwaharddiadau yn dangos gwaharddiadau eildro, ond mae yn datgelu nifer o waharddiadau cyfnod penodol ar gyfer plant ifanc (y bydd rhai ohonynt yn achosion eildro): yn 2013, er enghraifft, cafwyd 126 o achosion o wahardd plant oed Derbyn.³⁰ Mae rhai plant ifanc hefyd wedi profi gwaharddiadau 'answyddogol', sy'n torri'r gyfraith a'r canllawiau³¹. Mewn un achos a ddaeth i'm swyddfa i, gofynnwyd i deulu gasglu eu plentyn droeon, yn fuan iawn wedi dechrau'r diwrnod ysgol, heb i unrhyw waharddiadau gael eu cofnodi gan yr ysgol.

Dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gyda phlant ifanc

Gyda llawer o'r achosion a ddaeth i'm swyddfa, mae fy swyddogion wedi gallu cefnogi gweithwyr proffesiynol i roi dulliau priodol ar waith er mwyn diwallu anghenion y plentyn, a hynny mewn lleoliadau prif ffwrdd neu weithiau trwy sicrhau lle mewn lleoliad arall (megis canolfan adnoddau) os oedd hynny'n fwy priodol. Mae sawl achos wedi cynnwys plant sy'n aros am asesiad statudol AAA, neu rai y gwrthodwyd rhoi hynny iddynt, ac mae fy swyddogion wedi cynorthwyo trwy sicrhau bod asesiad priodol yn digwydd. Ymhlith y dulliau gweithredu eraill roedd atgyfeiriadau i'r tîm niwroddatblygiadol; cyfarfodydd Tîm o Gwmpas y Teulu neu'r Tîm o Gwmpas y Plentyn; Therapi Chwarae; atgyfeiriadau CAMHS; a chefnogaeth ddwys i deuluoedd gan y gwasanaethau cymdeithasol. Rhoddodd rhai ysgolion amserlenni rhan amser ar waith, er mwyn i'r plentyn fedru ymdopi'n well, ond heb gefnogaeth ychwanegol i gael mynediad i addysg lawn. Dim ond mewn un achos y trefnwyd bod y plentyn yn cael amserlen lai yn yr ysgol, gyda chefnogaeth gwersi gartref EOTAS. Mae hyn yn amlygu mai anaml iawn, yn ôl pob golwg, y mae darpariaeth EOTAS yn cael ei chynnig i'r grŵp oed yma.

³⁰ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Exclusions/PermanentAndFixedTermExclusions-by-YearGroup>

³¹ "6.2.6 Nid yw dylanwadu ar rieni/ofalwyr neu eu hannog i dynnu eu plentyn allan o'r ysgol 'o'u gwirfodd' er mwyn delio gydag ymddygiad anodd neu heriol yn ymateb priodol. Gellid barnu bod ysgolion sy'n gweithredu fel hyn yn gweithredu'n groes i'r gyfraith ynghylch addysg.

6.2.7 Mae 'achosion o dynnu plentyn allan o'u gwirfodd' yn osgoi'r broses wahardd ffurfiol ac felly yn amddifadu rhieni/gofalwyr a disgyblion o'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i wahardd. Gall y math yma o waharddiad anghyfreithlon arwain hefyd at golli pobl ifanc o fyd addysg a hyfforddiant, ac mae'n cynyddu'n sylweddol y perygl y cânt eu heithrio'n gymdeithasol."

<https://gweddi.gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-en.pdf>

Ym mhob un o'r achosion hyn mae fy swyddogion wedi ceisio sicrhau bod y plentyn yn elwa o ddull gweithredu seiliedig ar anghenion, ac mae'r angen am ymyrraeth yn awgrymu bod gwaith i'w wneud o hyd ar draws Cymru i sicrhau darpariaeth seiliedig ar anghenion. Rwy'n pryderu y gallai'r diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer plant o dan oed ysgol gorfodol yn Adran 2.3 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg (Cymru) 2018³² alluogi'r broblem hon i barhau o dan y ddeddfwriaeth newydd. Yn ôl diffiniad y Ddeddf, mae Anghenion Dysgu Ychwanegol yn bresennol os yw'r plentyn yn debygol o wynebu mwy o anawsterau wrth ddysgu ar ôl cyrraedd oed ysgol gorfodol. Yn dilyn hynny, rhoddodd y Côt drafft, a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yn y gwanwyn, gyfarwyddyd i ymarferwyr ragweld beth fydd anghenion y plentyn yn y dyfodol wrth benderfynu a oedd gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol. Fel y nodwyd yn fy ymateb i'r côd, perygl y diffiniad hwn ar wahân yw y gallai ymarferwyr ohirio penderfyniad ynghylch ADY (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd wrth wrthod asesiad statudol i blant) nes bod y plentyn yn cyrraedd oed ysgol gorfodol. Gall hyn olygu nad yw plant yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol yn ystod cyfnodau ffurfiannol hollbwysig y blynyddoedd cynnar a rhan gyntaf y Cyfnod Sylfaen. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn gwrthddweud pwysigrwydd ymyrraeth gynnar, a bwysleisiwyd yn Neddf 2018. Carwn bwysleisio y dylai ymateb ymarferwyr i blant o dan oed ysgol gorfodol fod yn seiliedig ar anghenion, ac rwy'n gobeithio y bydd y côd diwygiedig yn cyfeirio'r penderfyniadau a wneir, fel bod ymarferwyr yn ymateb i'r anghenion a welir gan blentyn, fydd yn golygu bod plentyn cyn-ysgol a fyddai'n elwa o gael IDP neu ALP ar yr adeg honno yn eu datblygiad yn derbyn y gefnogaeth honno, pa anghenion bynnag allai fod ganddynt yn y dyfodol.

Heriau wrth gael hyd i ddulliau gweithredu addas ar gyfer plant ifanc

Mewn un achos sy'n parhau ni fu modd cael hyd i ddull gweithredu addas mewn lleoliad prif ffrwd, ac nid oes lleoliad arbenigol ar gyfer plant ag anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol neu Ymddygiadol ar gael yn yr awdurdod cyn Cyfnod Allweddol 2.

Mae'r achos hwn yn ymwneud â phlentyn pump oed, a bu gryn bryderon y byddai'r plentyn yma'n niweidio'i hun neu blant eraill. Mewn ymateb i hynny roedd y plentyn yn cael ei addysgu yn ynysig gydag un cynorthwy-ydd dosbarth. Nid oedd y plentyn yma'n rhyngweithio â phlant eraill. Heriodd fy swyddfa yr awdurdod lleol, a ddywedodd nad oedd modd cynnig darpariaeth arbenigol oherwydd oed y plentyn, ond o fewn chwe mis cytunodd yr awdurdod i gynnig darpariaeth EOTAS wedi'i theilwra ar gyfer y plentyn yma ac un arall. Y staff yn yr uned hon o ddau blentyn yw un athro a

³² <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/section/2/enacted>

phedwar Cynorthwy-ydd Cynnal Dysgu. Mae problemau'n parhau gyda'r achos hwn, gan fod y teulu'n anfodlon ar y ddarpariaeth, ac mae diffyg amlwg o gyfleoedd cymdeithasol i'r plentyn yma ddysgu ochr yn ochr â phlant eraill a rhyngweithio â nhw.

Mewn achos arall, sydd bellach wedi dod i ben, roedd corff llywodraethu ysgol a'r staff yn pryderu am eu gallu i gadw plentyn yn y Cyfnod Sylfaen yn ddiogel: roedd gan y plentyn yma hanes o redeg i ffwrdd, ac roedd yr ysgol yn ymyl ffordd brysur; roedd y plentyn hefyd wedi achosi niwed i'w hunan ac i eraill. Dywedodd yr ysgol wrth fy swyddfa fod yr Awdurdod Lleol wedi dweud wrth yr ysgol ei bod hi'n 'amhosibl' na fyddai'r plentyn yma mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ar ôl cyrraedd Cyfnod Allweddol 2, ond gan nad oedd darpariaeth UCD ar gael cyn Cyfnod Allweddol 2, roedd angen i'r ysgol ddarparu lle ar gyfer y plentyn. Datryswyd yr achos hwn wrth i'r ysgol wneud newidiadau ar y safle, a thrwy ariannu hyfforddiant i'r staff a chefnogaeth ychwanegol. Fodd bynnag, teimlai'r ysgol nad oedd yr awdurdod yn eu cefnogi, a'u bod yn cael cais i 'warchod' plentyn oherwydd nad oedd darpariaeth EOTAS arbenigol ar gael ar gyfer plant iau. Rwy'n pryderu'n arbennig am agwedd yr awdurdod lleol yn yr achos hwn, gan ei fod fel petai'n awgrymu cydnabyddiaeth nad y lleoliad a gynigiwyd i'r plentyn oedd y ffordd orau o gefnogi anghenion y plentyn. Mae hefyd yn arwydd o ddiffyg parodrwydd i gydweithio â'r ysgol er mwyn cael hyd i'r ddarpariaeth gywir yn lleoliad yr ysgol. Er bod anghenion pob plentyn yn wahanol, mae rhai ysgolion (fel yr enghreifftiau a restrir ar ddechrau'r ymateb hwn) wedi gallu cynnig darpariaeth meithrin plant a fu'n effeithiol o ran delio gydag ymddygiad heriol a gallasai'r awdurdod lleol fod yn llawer mwy parod eu cydweithrediad a'u cefnogaeth yn eu hymateb i bryderon yr ysgol.

The Welsh Government also established the Child Trust Fund Cymru scheme, launched in Autumn 2009. The scheme, which ran until January 2011, provided an additional top-up to the CTF for children in Wales as they began primary school. The CTF Cymru provided £50 to all children, with a payment of £100 to those children living in low income households. HMRC data, suggest that a total of 273,000 CTF accounts were opened in Wales. The total value of CTFs in Wales was assessed by HMRC to be around £200m in 2012, which equates to an average value per account of £733. In many cases, of course, the value of CTFs will have risen significantly since 2012.

The Welsh Government opposed the UK Government's decision to abolish the scheme which deprived children of a guaranteed savings pot, with those in the poorest households losing out disproportionately. The UK Government has also undermined access to CTFs by failing to promote the schemes to ensure that families are in touch with their accounts.

The funds committed by both previous UK and Welsh Governments represented an investment in our children's future. Whether young people opt to re-invest and save for the future or to cover immediate costs to help with their next steps at this pivotal age, they should face no barrier to accessing their savings.

^[1] *Child Trust Funds Statistics, Detailed Distributional Analysis*, HMRC, Feb 2013.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/255881/dda.pdf

Given that Welsh Government money has been committed to these funds, I would be grateful for full details on the action the UK Government is taking to ensure that every eligible young person in Wales is made aware of the savings that have been set aside for their future.

As those young people make plans for their future, it is crucial that they are contacted in advance of the CTFs maturing this September. Advice and support should also be provided so that young people are protected from any predatory actors that target their savings.

We are copying this letter to the Chair of the Children, Young People and Education Committee.

Yours sincerely,



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. **Tudalen y pecyn 77**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-VG-0207-20

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Ionar 2020

Annwyl Lynne,

Rwy'n cyfeirio at eich cais i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'r camau gweithredu a godwyd yn ystod sesiwn Cyllideb Ddrafft y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr 2020. Gweler isod fy ymateb mewn perthynas â'r materion hynny sy'n rhan o fy nghylch gwaith fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau Llywodraeth Cymru o'i gwaith ymchwiliol gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried Bondiau Effaith Gymdeithasol fel model buddsoddi sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn lleihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n mynd i mewn i wasanaethau gofal, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau

Byddwn yn ceisio penodi sefydliad addas i ddatblygu'r gwaith hwn. Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth, hyd yma, rydym wedi bod yn gweithio gyda chwmni Social Finance ond, yn dibynnu ar y trefniadau, efallai y bydd angen i ni geisio cyngor ar gaffael cyn cadarnhau unrhyw fanylion cytundebol. Byddai angen i ni nodi partneriaid llywodraeth leol sy'n addas ac yn barod i dreialu'r cynllun.

Yn olaf, byddai angen cynnal proses ddethol ar gyfer darparwyr cyllid a sefydliadau trydydd sector a fyddai'n darparu'r gwasanaeth, a fyddai'n cael ei ddarparu i'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan. Dylai gwaith y partneriaid trydydd sector hyn gynhyrchu arbedion ar gyfer awdurdodau lleol a all ad-dalu'r darparwyr cyllid wedyn. Ar ôl i'r cyllid gael ei ad-dalu, bydd yr awdurdodau yn gallu defnyddio'r arbedion i gyllido gwasanaethau eraill. Bydd y model yng Nghymru yn wahanol am fod Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod rhywfaint o risg, a all golygu nad yw'r holl fuddiannau posibl yn cael eu cynhyrchu. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon gweithredu fel gwarantwr y cynllun – mae hyn yn golygu na fydd yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn gyfrifol am y risg.

Bydd angen i'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan nodi'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer y gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal y maent yn eu gweithredu, a gweithio gyda phartion eraill i ddatblygu mesurau ystyriol fel ein bod yn gwybod sut beth yw llwyddiant, neu fethiant. Bydd angen i ni sicrhau bod awdurdodau lleol yn deall yn llawn pa ffactorau sy'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 78
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ysgogi'r pwysau a'r canlyniadau ariannol rydym yn eu gweld. Bydd hefyd angen i ni sicrhau bod y camau gweithredu a gynigir yn debygol o effeithio ar y sbardunau hyn – mae angen i ni dderbyn bod hon yn broblem gymhleth, ac y darperir ar gyfer y cymhlethdod hwn a bod dull gweithredu hyblyg wedi'i fabwysiadu.

Cadarnhad ynghylch ble yn union mae manylion am yr ystyriaeth glir o effaith penderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant yn Asesiad Effaith Integredig Strategol eleni y cyfeirir ato yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y sesiwn hon.

Fel rhan o broses y gyllideb, mae gennym gyfrifoldeb i ystyried ein penderfyniadau o safbwynt sawl agwedd er mwyn deall eu heffaith. Rydym yn parhau i fabwysiadu dull gweithredu integredig sy'n ein galluogi i ddeall effaith penderfyniadau ar grwpiau gwahanol o bobl a meysydd megis yr amgylchedd, yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod ystyried hawliau Plant yn parhau i fod yn rhan annatod o broses ein cyllideb.

Gellir dod o hyd i'r ystyriaethau o'r effeithiau ar blant yn y paragraffau canlynol o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol; 32, 33, 48, 53, 59-61, 65, 68-93, 96-97, 104-105, 109-111, 115, 121-127 a 158.

Rhestr o brosiectau sy'n cael cyllid o dan y cynnig gofal plant ar gyfer Cyfnod Sylfaen a gydleolir a darpariaeth Cynnig Gofal Plant.

Nod Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant yw cefnogi'r sector gofal plant ledled Cymru, gan gynyddu capasiti a sicrhau bod digon o leoedd i alluogi lleoliadau i ddarparu'r Cynnig Gofal plant. O dan y cynllun, rydym wedi rhoi cyllid i bob awdurdod lleol i gyflwyno cynllun grantiau bach yn eu hardal, ynghyd â chyllid tuag at dros 150 o gynlluniau mwy o faint. Er mai mater i awdurdodau lleol unigol yw penderfyniadau ar ddyraniadau o dan y cynllun grantiau bach, cafodd y cynlluniau mwy eu hasesu ar lefel genedlaethol.

Mae gan Gynllun Grant Cyfalaf Bach y Cynnig Gofal Plant derfyn cyllid o rhwng £5,000 a £10,000 y flwyddyn ariannol ar gyfer darparwyr gofal plant, yn seiliedig ar nifer y plant a gofrestrwyd. Gellir cynnig cyllid ar gyfer amrywiaeth o waith cyfalaf y gall fod angen ei wneud, megis:

- Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys paentio, newid carpedi ac ati;
- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, megis newid yr arwyneb chwarae awyr agored neu ddarparu canopi;
- Newid / trwsio gosodiadau a ffitiadau megis toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri a drysau;
- Newid cyfarpar / dodrefn / teganau â thraul arnynt a all beri risg o ran iechyd a diogelwch. Er enghraifft, ffrâm ddringo awyr agored sydd wedi rhydu, dodrefn sydd wedi torri neu wedi treulio'n wael, a allai achosi fflawiau; neu fwrdd newid sy'n hen ac yn aflêr, na ellir ei lanhau'n hylan mwyach;
- Cyfarpar TG, ar yr amod y gellir dangos yn glir bod ei angen er mwyn darparu lleoliadau Cynnig Gofal Plant, gallai hyn gynnwys gliniaduron ac argraffwyr;
- Addasiadau i'r lleoliad er mwyn gwella mynediad;
- Darparu cyfarpar/dodrefn pwrpasol a fydd yn galluogi darparwr i ddiwallu anghenion plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Prynu cyfarpar a fydd yn galluogi'r lleoliad i ddarparu ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed;
- Tuag at brynu bws mini a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gludo plant rhwng elfennau gofal plant ac addysg y Cynnig. Nid yw costau prydlesu na chostau cynnal megis costau yswiriant, petrol a gwasanaethu yn gynnwys ar gyfer cyllid.

Mae'r cynlluniau mwy yn amrywio o ran maint a chymhlethdod. Mae rhai yn ymwneud ag adnewyddu lleoliadau sy'n bodoli eisoes i'w galluogi i ehangu a darparu gwasanaethau i fwy o blant. Mae rhai yn ymwneud â darparu gofal plant newydd a phwrpasol ar safleoedd ysgolion i alluogi cydleoli dwy elfen y Cynnig. Ceir rhestr lawn o'r grantiau cyfalaf a ddyfernir gan ardal yr Awdurdod Lleol yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Copi o'r llythyr a anfonwyd i Chwarae Cymru yn amlinellu'r cylch gwaith sy'n gysylltiedig â'i chyllid dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac awgrym o'r hyn y disgwylir ei gyflawni o'r cyllid y dyrennir iddi yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21

Rydych hefyd wedi gofyn am rywfaint o wybodaeth ychwanegol am y cyllid o £360,000 a ddyrennir i Chwarae Cymru o fewn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21.

Fel y wlad gyntaf yn y byd i gorffori'r hawl i chwarae mewn deddfwriaeth, ystyrir bod Cymru yn arweinydd byd-eang yn y maes hwn. Mae'r cyllid a ddarperir i Chwarae Cymru yn ei galluogi i gefnogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau chwarae i gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae gwell i blant. Mae hefyd yn ein galluogi i rannu ein profiadau a dysgu o'r rheini o wledydd eraill sydd wedi cael yr un statws rhyngwladol â Chwarae Cymru.

Yn hyn o beth, mae'r ffordd rydym yn ariannu Chwarae Cymru yn debyg i'r dull gweithredu a ddefnyddir ar gyfer nifer o sefydliadau eraill gan gynnwys Consortia Cwlwm, sy'n darparu cyngor a chymorth arbenigol ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gofal plant, a Plant yng Nghymru. Mae cyfranogiad partneriaid arbenigol yn rhan allweddol o ddatblygu polisiau a rhaglenni integredig ar y cyd.

Mae'r cyllid a ddarperir i Chwarae Cymru yn ei galluogi i ddarparu yn erbyn pedwar amcan craidd sy'n hollbwysig i'r gwaith o ddarparu profiadau chwarae o ansawdd uchel:

- gweithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a materion sy'n gysylltiedig â chwarae plant yng Nghymru.
- hyrwyddo gwerth chwarae plant yng Nghymru drwy ddarparu gwybodaeth amserol a chyfredol i'w rhanddeiliaid.
- darparu gwybodaeth a chynngor arbenigol mewn perthynas â phob mater sy'n ymwneud â chwarae plant ac sy'n effeithio arno.
- cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

Caiff y llythyr cynnig grant ar gyfer 2020-21 ei anfon ar ôl cytuno ar y gyllideb derfynol. Gellir dod o hyd i'r llythyr cynnig grant ar gyfer 2019-20 wedi ei llofnodi yn y ddolen isod. Nid ydym yn disgwyl unrhyw wahaniaethau mawr i'r llythyr cynnig grant ar gyfer 2020-21.

<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A25749272/document/versions/published>

Ceir copi diweddar o Gynllun Gweithredol Chwarae Cymru ar gyfer 2018-2020 yn:

<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A28695206/document/versions/published>

Manylion pellach am y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £2.3 miliwn yn ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21 i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu, a manylion pellach am ei hymateb i'r pryderon a godwyd gan Adoption UK yng Nghymru, ynghyd ag effaith ei chais aflwyddiannus am gyllid

Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer 2020-21 ar wasanaethau cymorth.

- Mae'r buddsoddiad o £2.3 miliwn yn cael ei ddefnyddio i drawsnewid y 'cynnig' cymorth mabwysiadu yng Nghymru ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd greadigol i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer adnoddau eraill er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad ehangaf posibl. Bwriedir i'r 'Cynnig Craidd' hwn wneud y canlynol:
 - paratoi teuluoedd mabwysiadol o'r cychwyn a'u cefnogi yn ystod y diwrnodau cynnar er mwyn annog teuluoedd iach a hyderus;
 - darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth effeithiol pan fydd eu hangen ar y teuluoedd, a hynny'n amserol, er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi yn llai tebygol o ddatblygu'n faterion mwy difrifol;
 - darparu cymorth parhaus neu sicrhau ei bod yn hawdd defnyddio'r gwasanaethau eto, lle y bo angen.
- Mae gwasanaethau Newydd ac Arloesol yn cael eu datblygu drwy'r cyllid hwn, ac mae llawer ohonynt yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol Cymru, er enghraifft Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu (TESSA), Mabwysiadu Gyda'n Gilydd a Connected (gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a fabwysiedir).
- Gwasanaeth ledled y DU a ariennir gan y Loteri yw TESSA (Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu) sy'n cael ei gyflwyno yng Nghymru, gan ddefnyddio cyllid cyfatebol o'r buddsoddiad hwn i ddarparu cyrhaeddiad ehangach yng Nghymru. Yn seiliedig ar ddarpariaeth drwy riant-bartneriaid sy'n cael eu talu (mabwysiadwyr profiadol a chymwys), mae'n cynnwys asesiad seicoleg arbenigol a chwrs 6 wythnos (yn seiliedig ar wasanaeth llwyddiannus a ddarperir gan un Bwrdd Iechyd yng Nghymru), yn ogystal â mynediad i wasanaethau cymorth eraill a argymhellir. Mae'r gost yn parhau i fod yn isel, mae'r nifer sy'n cofrestru'n gynnar yn dda ac mae'n cael ei werthuso'n academiaidd. Pan fydd yn gwbl weithredol, bydd yn darparu gwasanaethau i tua 200 o deuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru ar unrhyw adeg benodol. Dechreuodd y gwasanaeth dderbyn atgyfeiriadau ym mis Tachwedd ac mae 18 o deuluoedd eisoes yn manteisio arno.
- Gwasanaeth 'Connected' yw'r unig adnodd arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc a fabwysiedir yng Nghymru (Talk Adoption gynt). Mae'r buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod hwn ar gael ym mhob rhan o Gymru a bod gwasanaeth cyngor a gwybodaeth yn ategu'r buddsoddiad. Caiff y gwasanaeth hwn ei ddarparu i blant a phobl ifanc a fabwysiedir yn yr un ffordd â'r gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt wedi cael eu mabwysiadu. Mae cynllun llysgenhadon sy'n oedolion ifanc a fabwysiedir yn darparu systemau ar gyfer ymgynghori, ymgysylltu a hyrwyddo mabwysiadu. Mae model cyllido cyfatebol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau'r cyrhaeddiad ehangaf posibl. Cynigwyd trosglwyddo 100 o blant a phobl ifanc i'r gwasanaeth newydd. Mae 70 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ac yn manteisio ar y gwasanaeth wrth iddo dyfu. Penodwyd swyddog datblygu cenedlaethol, yn ogystal â 4 allan o 5 swyddog rhanbarthol. Mae'r gwaith cwmpasu ar gyfer cynnig cyngor a gwybodaeth cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc a fabwysiedir wedi dechrau ac mae'r cynllun llysgenhadon sy'n oedolion ifanc a fabwysiadwyd yn mynd rhagddo, gyda 3 wedi'u recriwtio hyd yma.
- Mae'r buddsoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i newid a gwella ymarfer ledled Cymru. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) wedi comisiynu AFA Cymru (y Gymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu) i weithio gyda'r sector i ddatblygu dulliau arfer gorau newydd mewn perthynas â'r canlynol:
 - lleoli plant a darparu cymorth cynnar (gan gynnwys Mabwysiadu Gyda'n Gilydd);
 - cyswllt sydd wedi'i hwyluso'n effeithiol gan wasanaethau / asiantaethau rhanbarthol;
 - asesiad cymorth mabwysiadu, cynllunio ac adolygu ar gyfer pob plentyn;

- gweithio gyda rhieni biolegol gan gynnwys cysylltiadau â phrosiectau Reflect.
- ochr yn ochr â hyn, mae gwasanaethau yn treialu'r dulliau gweithredu gwahanol hyn er mwyn llywio'r canllawiau newydd sydd eisoes yn cael effaith ar blant a theuluoedd
 - Mae tua 25 o deuluoedd yn cael eu cefnogi mewn rhanbarthau sydd wedi datblygu'r dull newydd o leoli a darparu cymorth cynnar, ac mae 7 plentyn wedi'u lleoli drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd hyd yma
 - Gwnaeth 80+ o bobl fynychu'r digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd â Voices from Care, Prifysgol Caerdydd a Chanolfan Cyfreithiol Plant ym mis Mehefin 2019. O ran cynllun Connect a chysylltu drwy'r post, mae cynlluniau ar gyfer tua 2,300 o blant yn cael eu hadolygu / mae'r gwasanaeth yn cael ei wella
 - 50 o deuluoedd biolegol yn cael eu cefnogi gan yr adnoddau newydd hyd yma.
- Mae'r buddsoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i ymgorffori'r dull newydd o weithredu o ran Gwaith Taith Bywyd. Mae 4 allan o 5 rhanbarth wedi penodi cydlynwyr Gwaith Taith Bywyd newydd, gyda 154 o blant yn cael deunyddiau taith bywyd pan gânt eu paru. Mae 147 o blant wedi cael deunyddiau taith bywyd cyflawn yn ystod eu hail adolygiad mabwysiadu hyd yma eleni.
- Mae cyfran o'r buddsoddiad hefyd yn cael ei defnyddio mewn dau ranbarth i gefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o fabwysiadu, hyfforddiant a datblygu staff ym maes gofal cymdeithasol ac asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod gwell amrywiaeth o ymyriadau therapiwtig ar gael i gefnogi plant a fabwysiedir a theuluoedd.
- Mae cyfran o'r buddsoddiad hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi blaenoriaeth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, sef recriwtio mwy o fabwysiadwyr.
- Wrth symud ymlaen, ein prif fwriad yw parhau i ddefnyddio'r adnoddau fel yr amlinellir uchod. Mae llawer ohono wedi cael ei fuddsoddi er mwyn darparu mwy o wasanaethau a 'u darparu'n fwy cyson ledled Cymru. Mewn perthynas â Chymorth Mabwysiadu yn enwedig, mae hyn yn rhan o gynllun strategol cyffredinol i weithredu Fframwaith Cymorth Mabwysiadu y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, a ddaw yn 'Gynnig Craidd'. Fodd bynnag, yn anochel, bydd blaenoriaethau cysylltiedig neu flaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg a byddwn yn ceisio bod yn greadigol ac yn hyblyg i ddefnyddio'r adnoddau i fodloni'r rhain wrth i ni symud ymlaen.

Gwnaeth swyddogion gyfarfod ag Adoption UK ar 13 Ionawr i drafod y ffaith nad oeddent yn llwyddiannus yn eu cais ar gyfer cyllid Grant Trydydd Sector y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy o 2020 ymlaen, a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau. Roedd hwn yn gyfarfod cadarnhaol a gofynnodd swyddogion am achos busnes manwl gan Adoption UK Cymru fel y cam nesaf er mwyn pennu'r gwasanaethau y gofynnir am gyllid ar eu cyfer. Yn dilyn hynny, cynhelir trafodaeth fanwl o'r achos busnes rhwng Adoption UK a swyddogion cyn bo hir. Yna, caiff y cynigion eu cyflwyno'n gyflym i'r gweinidogion eu hystyried ymhellach.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Awdurdod Lleol	Lleoliad y Prosiect	Enw'r Prosiect	Grant a Ddyfarnwyd	Cyfanswm fesul Awdurdod Lleol	Costau Grantiau Bach a/neu Reoli Prosiect fesul Awdurdod Lleol
Ynys Môn	Bro Aberffraw, Pentref Niwbwrch	Ysgol Santes Dwynwen	£400,000		
	Ynys Cybi	Ysgol Gymraeg Morswyn	£412,675		
	Aethwy	Ysgol Llandegfan	£450,000		
	Llifon	Ysgol Pencaernisiog, Neuadd y Gymuned	£340,405		
	Bro Rhosyr	Ysgol Esceifiog, Gaerwen	£364,495		
	Bro Rhosyr	Henblas, Llangristiolus	£370,405		
	Llifon	Ysgol y Tywyn	£215,575		
	Llangefni	Ysgol newydd yn lle Bodffordd a Chorn Hir	£640,000		
			Cyfanswm YM	£3,193,555	£265,000
Blaenau Gwent	Abertyleri	Six Bells - lleoliad newydd	£1,500,000		
	Glynebwy	Glyncoed - lleoliad newydd	£1,500,000		
	Swffryd	Dechrau'n Deg Swffryd	£500,000		
	Blaenau	Canolfan Blant Integredig Blaenau	£500,000		
	Tredegar / Sirhowi	Darpariaeth newydd	£200,000		
			Cyfanswm BG	£4,200,000	£100,000
Pen-y-bont ar Ogwr	Maesteg	Ysgol Cynwyd Sant (Hwb)	£20,000		
	Betws	Betws	£650,000		
	Canol Tref Pen-y-bont	Canol Tref Pen-y-bont	£650,000		
	Cwm Ogwr	Cwm Ogwr	£650,000		
	Porthcawl	Porthcawl	£650,000		
			Cyfanswm PyB	£2,620,000	£391,000
Caerffili	Cwmcarn	Cwm Gwyddon	£695,748		
	Bedwas Trethomas Machen	Ysgol Gymraeg newydd	£695,748		
	Caerffili	Ysgol Gynradd Twyn	£795,748		
	Bedwas	Ysgol Fabanod Bedwas - bwthyn y gofalwr	£248,770		
	Caerffili	Clwb Meithrin y Castell	£170,231		
	Caerffili	Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin	£508,874		
	Abertridwr	Ysgol Gynradd Cwm Aber	£50,000		
	Pengam / Trelyn	Gofal dydd cyfrwng Cymraeg - i'w gadarnhau	£695,748		
	Oakdale	Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd	£710,748		
	Nelson	Ysgol Fabanod Llanfabon	£403,374		
	Caerffili	Ysgol Cwm Derwen	£30,000		
	Caerffili	Ysgol Ifor Bach	£496,000		
	Penalltau	Ysgol Penalltau	£140,000		
	Caerffili	YGG Y Castell	£180,000		
			Cyfanswm Caerffili	£5,820,989	£500,000
Caerdydd	Grangetown	Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad	£10,000		
	Butetown	St Mary the Virgin	£125,000		
	Grangetown	St Paul's, yr Eglwys yng Nghymru	£200,000		
	Llandaf / Radur	Gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd	£100,000		
	Ledled y Sir	3 Cylch Meithrin newydd	£950,000		
			Cyfanswm C'dydd	£1,385,000	£682,000
Sir Gaerfyrddin	Adeiladu ysgolion newydd	Gorslas	£348,000		
		Pembre	£310,000		
		Hendy	£310,000		
		Llandeilo	£348,000		
		Cydweli	£310,000		
			Cyfanswm Sir Gaerfyrddin	£1,626,000	£1,346,805
Ceredigion	Aberaeron	Dyffryn Aeron - Ysgol Band B	£787,500		
	Tregaron	Ysgol 3-16 Henry Richard	£676,500		
	Cenarth	Ysgol Gynradd Cenarth	£740,000		
	Penparcau	Ffrindiau Bach yr Eos	£858,500		
	Aberaeron	Llanarth / Ceinewydd	£687,500		
			Cyfanswm Ceredigion	£3,750,000	£200,000
Conwy	Conwy	Darpariaeth ADY - Ysgol y Gogarth / Ysgol Porth y Felin	£475,000		
	Conwy	Ysgol Feithrin / Y Caban / Ysgol Porth y Felin	£258,910		
	Cyffordd Llandudno	Cylch Chwarae Cyffordd Llandudno	£328,840		
	Colwyn Bay	Ysgol Feithrin Glan Conwy	£347,710		
	Conwy	Cylch Chwarae St Gwynan, Ysgol Capelulo	£385,450		
	Bae Colwyn	Ysgol Cynfran	£445,945		
	Llanddulas	Adeilad newydd Ysgol Llanddulas	£328,840		
	Llanfairfechan	Adeilad newydd Ysgol Babanod	£445,945		
	Bae Cinnel	Cylch Meithrin Awyr Agored - darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd	£385,450		
	Towyn	Clwb Hwyl, Ysgol Maes Owen	£493,120		
	Abergele	Cylch Meithrin yn Ysgol Llanfair Talhaearn	£306,080		
	Cyffordd Llandudno	Ysgol Awel y Mynydd	£246,700		
	Bae Colwyn	Ysgol Bod Alaw	£670,440		
			Cyfanswm Conwy	£5,118,430	£300,000
Sir Ddinbych	Y Rhyl	Cylch Aber Clwyd a Chylch Rhuddlan / Ysgol Dewi Sant	£613,575		
	Dinbych	Cylch Bodawen / Ysgol Twm o'r Nant	£647,380		
	Y Rhyl	Little Acorns / Canolfan Blant Integredig Oaktree	£1,069,048		
	Llangollen	Ysgol Bryn Collen	£407,769		
	Llanelwy	Canolfan iaith Ysgol Glan Clwyd	£170,000		
Sir y Fflint	Higher Kinnerton	Ysgol Derwen	£450,000		
	Yr Hôb	Cylch Chwarae Yr Hôb	£450,000		
	Bwcle	Canolfan/Ysgol Westwood	£610,000		
	Brynffordd	Ysgol Brynffordd	£500,000		
	Caerwys	Ysgol yr Esgob	£230,000		
	Shotton	Cylch Meithrin	£375,000		
	Bagillt	Pentref Bagillt / Ysgol Merllyn	£100,000		
	Bagillt	Glan Aber	£400,000		
	Trelawnyd	Ysgol Trelawnyd	£250,000		
	Carmel	Ysgol Bro Carmel	£500,000		
	Treffynnon	Maes y Felin	£250,000		
	Sychdyn	Ysgol Sychdyn	£275,000		
	Chwitfordd	Ysgol y Llan, Chwitfordd	£500,000		
	Yr Wyddgrug	Ysgol Glanrafon	£1,070,000		
Gwynedd	Bangor	Ysgol y Faenol	£325,025		

	Bangor	Ysgol y Garnedd	£490,425		
	Bethesda	Ysgol Llanllechid	£294,750		
	Y Bala	Ysgol Beuno Sant	£300,000		
	Y Bala	Ysgol Bro Tryweryn	£274,245		
	Caernarfon	Ysgol yr Hendre	£158,470		
	Caernarfon	Plas Pawb	£302,500		
	Pen Llyn	Pen Llyn	£209,300		
	Tywyn	Ysgol Gynradd Penybryn, CM Tywyn	£255,300		
			Cyfanswm Gwynedd	£2,610,015	£310,000
Merthyr Tudful	Trefechan, Merthyr	Ysgol Gynradd y Graig	£233,686		
	Pant	Ysgol Gynradd y Pant	£26,708		
	Merthyr	Busy Bees, Ysgol Gynradd Goetre	£401,800		
	Dowlais	Ysgol Gynradd Dwylo Bach	£481,275		
	Bedlinog	Ysgol Gynradd Bedlinog	£299,870		
	Goetre / Aberfan	Ysgol Rhyd y Grug / ysgol cyfrwng Cymraeg newydd	£640,000		
			Cyfanswm Merthyr	£2,083,339	£75,000
Sir Fynwy	Porthsgiwed	Ysgol Gynradd yr Archesgob Rowan Williams	£640,000		
	Trefynwy	Ysgol Gynradd Tryleg	£619,000		
	Trefynwy	Egin ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg	£478,000		
	Cil-y-coed	Ysgol Gynradd y Ffin	£211,000		
			Cyfanswm Sir Fynwy	£1,948,000	£300,000
Castell-nedd Port Talbot	Castell-nedd	Castell Nedd	£555,000		
	Castell-nedd	Waunceirch	£355,000		
	Port Talbot	Ysgol Gynradd Baglan	£555,000		
	Cwm Dulais	YGG Blaendulais	£355,000		
	Castell-nedd	Ysgol Gynradd Abbey	£555,000		
	Port Talbot	Ysgol Gynradd Blaen Baglan	£555,000		
	Pontardawe	Ysgol Gynradd Rhos	£355,000		
	Cwmafan	Clwb Bechgyn a Merched Cwmafan	£755,000		
	Ystradowen	YGG Cwmllynfell	£350,000		
	Pontardawe	Pontardawe	£180,000		
	Llansawel	YGG Tyle'r Ynn	£430,000		
			Cyfanswm CNPT	£5,000,000	£610,000
Casnewydd	Pilgwenlli	Ailfodelu lleoliad Dechrau'n Deg Pilgwenlli	£600,000		
	Maesglas	Ailfodelu'r ddarpariaeth bresennol	£150,000		
	Ringland	Cyfleusterau ychwanegol yn y lleoliad Dechrau'n Deg	£500,000		
	Gaer	Canolfan Gymunedol y Gaer	£240,000		
	Betws	Ehangu'r lleoliad Dechrau'n Deg, Monnow	£600,000		
			Cyfanswm C'newydd	£2,090,000	£377,368
Sir Benfro	Penfro	Pending Application - Ysgol Gelli Aur	£980,000		
				Cyfanswm SB	£980,000
Powys	Ystradgynlais	Dechrau Disglair, Ysgol Dyffryn y Glowyr	£1,739,606		
	Penybontfawr	Ysgol Pennant	£208,000		
	Y Groes	Rhaeadr	£325,000		
	Rhaeadr	Cylch Meithrin Rhaeadr	£400,000		
	Cegidfa	Ysgol Gynradd Cegidfa	£208,000		
			Cyfanswm Powys	£2,880,606	£386,000
Rhondda Cynon Taf	Tonyrefail	Little Inspirations, Ysgol Gymunedol Tonyrefail	£125,000		
	Tonteg	Grŵp chwarae a chlwb ar ôl ysgol Hollies, Ysgol Gynradd Gwauncelyn	£745,000		
	Coed-elái	Grŵp chwarae / clwb hwyl Cwmlai, Ysgol Gynradd	£745,000		
	Bryncae	Ysgol Gynradd Dolau	£730,000		
	Treorci	Dragon Tots, Treorci	£1,000,000		
	Aberdâr	YGG Aberdâr	£810,000		
	Llanhari	Clych Meithrin yn Ysgol Llanhari	£690,000		
	Pontypridd	Cylch Meithrin yn YGG Evan James	£340,000		
	Abercynon	Cylch Meithrin yn YGG Abercynon	£200,000		
	Ynyswen	YGG Ynyswen	£720,000		
			Cyfanswm RCT	£6,105,000	£253,014
Abertawe	Llandeilo Ferwallt	Treetops@Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt	£361,000		
	St Thomas	Ysgol Gynradd Danygraig	£323,000		
	Penclawdd	Ysgol Gynradd Penclawdd	£170,000		
	Llansamlet	Ysgolion Cynradd Talycopa/Trallwn	£361,000		
	Uplands	YGC Bryn y Môr	£975,000		
	Y Cocyd	YGC Y Login Fach	£575,000		
			Cyfanswm Ab'tawe	£2,765,000	£100,000
Torfaen	Pont-y-pŵl	Ysgol Panteg	£715,000		
	Trefddyn	Ysgol Gyfun Gwynllyw	£715,000		
	De Torfaen	Ysgol Gatholig 3-16 newydd	£737,000		
	Cwmbran	Ysgol Gynradd Maendy	£622,000		
	Greenmeadow	Ysgol Gynradd Greenmeadow	£100,000		
			Cyfanswm Torfaen	£2,889,000	£690,000
Bro Morgannwg	Y Barri	Ysgol Gynradd Gladstone	£650,000		
	Y Bontfaen	Ysgol Gynradd Llanfair	£450,000		
	Llanilltud Fawr	Meithrinfa ddydd cyfrwng Cymraeg	£650,000		
			Cyfanswm BM	£1,750,000	£190,000
Wrecsam	Garden Village	Canolfan Gymunedol Garden Village	£137,500		
	Gresffordd	Meithrinfa Homestead	£199,895		
	Marford	Grŵp chwarae Marford	£81,700		
	Rhiwabon	Cyngor Cymuned Rhiwabon	£460,000		
	Borras, Wrecsam	Ysgol Gynradd Gymunedol Borras	£450,000		
	Borras, Wrecsam	Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg	£450,000		
	Owrtyn	Ysgol St Mary's	£400,000		
	Johnstown, Wrecsam	Ysgol yr Hafod	£450,000		
	Rhosllanerchrugog, Wrecsam	Ysgol ID Hooson	£450,000		
	Cefn Mawr, Wrecsam	Cefn Mawr / Ysgol Min y Ddôl	£450,000		
	Y Waun	Ysgol y Waun	£450,000		
	Johnstown / Rhostyllen	Johnstown / Rhostyllen - safle ysgol newydd, i'w gadarnhau	£450,000		
	Pentre, y Waun	Pentre, y Waun	£150,000		
	Gwersyllt, Wrecsam	Ysgol Bro Alun	£450,000		
			Cyfanswm Wrecsam	£5,029,095	£400,000
			Cyfanswm Cymru	£72,711,801	£8,446,284
Allwedd i'r Cod Lliwiau:			Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	Cyfanswm Cyfunol Cymru	£81,158,085
			Darpariaeth ddwyieithog		
			Darpariaeth cyfrwng Saesneg		

Ein cyf/Our ref: MA/KW/0209/20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

23 Ionawr 2020

Annwyl Lynne

Diolch am y cyfle i ddod i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr i roi tystiolaeth ynghylch cynlluniau Prif Grŵp Gwariant Addysg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.

Nodwyd nifer o bwyntiau gweithredu yn dilyn y sesiwn graffu, ac mae ymateb i bob un o'r rhain i'w gweld isod. Darperir ymateb hefyd ar gyllid ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n sipsiwn, Roma a theithwyr. Nid oedd modd codi hyn yn y Pwyllgor oherwydd prinder amser.

Cyllid ar gyfer addysg o fewn Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol

Bydd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ysgrifennu at eich Pwyllgor chi ac at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i esbonio'r trefniadau technegol ar gyfer blaenoriaethu cyllid ar gyfer cyflog a phensiynau athrawon a gafodd ei gynnwys yn setliad dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2020-21.

Ar 4 Medi, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei setliad ar y Cylch Gwario. Roedd hwn yn cadarnhau bod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 £593m yn uwch na llinell sylfaen 2019-20, yn sgil newidiadau yng nghyllidebau adrannau Llywodraeth y DU. Roedd hyn yn cynnwys cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer Addysg o £196m.

Cyhoeddodd y Canghellor ddyraniad tair blynedd o £7.1bn i ysgolion yn Lloegr, ond dim ond setliad blwyddyn ar gyfer 2020-21 a roddwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU. Ni roddwyd yr un gallu i ni, felly, i ddarparu sicrwydd i ysgolion yng Nghymru.

Mae'r ychwanegiadau i setliad llywodraeth leol a chyllid newydd arall i ysgolion a gofal cymdeithasol yn dod i dros £220m yn 2020-21 - mae hyn yn fwy na'r hyn a gawsom yn y Cylch Gwario mewn perthynas ag elfen ysgolion y cyllid canlyniadol (tua £150m o £196m) a'r elfen gofal cymdeithasol (tua £59m) a roddwyd yn Lloegr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y mae ein cynigion cyllidebol drafft yn ei adlewyrchu, mae gan Brif Grŵp Gwariant Addysg £1.8bn ar gyfer 2020-21, sy'n gynydd o £86m ar gyfer addysg.

Monitro £15m ar gyfer dysgu proffesiynol

Rydym yn derbyn adroddiadau bob tymor gan bob rhanbarth ar y mynediad i'r rhaglen genedlaethol o ddysgu proffesiynol. Rydym hefyd yn sicrhau bod cynlluniau Dysgu Proffesiynol ysgolion yn cael eu cymeradwyo gan eu Cynghorwyr Herio, gan ddefnyddio meini prawf heriol o ansawdd a sicrhau bod ysgolion yn cyhoeddi eu cynlluniau Dysgu Proffesiynol, fel bod modd i'r cymunedau perthnasol ac arbenigwyr yn y maes graffu arnynt. Byddwn yn parhau i fonitro'r broses hon drwy strwythur llywodraethiant y rhaglen.

Ymchwil ac Arloesi

Mae'r naratif isod yn adlewyrchu'r rhaglenni ehangach sy'n gysylltiedig â chyfres raglenni SMART sy'n cefnogi arloesi, yn ogystal â Sêr Cymru. Caiff y Rhaglenni hyn eu cydgyllido â'r Cronfeydd Strwythurol. Cyfraniad blwyddyn, felly, yw'r gyllideb a ddyrennir ar gyfer 2020/21, ac nid yw'n adlewyrchu cyfanswm y buddsoddiad. Mae'n anodd, felly, asesu effaith un flwyddyn yn unig o gyllid Llywodraeth Cymru.

Cyfres Raglenni SMART Llywodraeth Cymru

Mae ein cyfres o raglenni SMART yn gwneud 3 peth o dan un ambarél:

- Darparu cyngor a chanllawiau ar bob elfen o ymchwil a datblygu
- Rhoi cyllid grant i brosiectau ymchwil a datblygu corfforaethol cymwys
- Rhoi cyllid tuag at gydbrosiectau masnachol academiaidd/busnes

Cyllidebau gros rhaglenni 2014-23 (gallai'r prosiectau redeg tan ddiwedd y cyfnod hwn):

SMART	LIC	ERDF	Y Sector Preifat	Cyfanswm
Arloesedd SMART	£7.5m	£11.0m	£0.0m	£18.5m
SMART Cymru	£0.0m	£27.3m	£36.1m	£63.4m
Arbenigedd SMART	£1.3m	£30.3m	£19.7m	£51.3m
Cyfanswm	£8.8m	£68.6m	£55.8m	£133.2m

Mae pob £1 gan Lywodraeth Cymru a fuddsoddir yn SMART yn creu mwy na £15 ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a buddsoddiad sector preifat. Dyma raglenni unigol cyfres SMART:

Mae **Arloesedd SMART** yn darparu cyngor a chymorth arloesi arbenigol ar gyfer busnesau Cymru drwy dîm o arbenigwyr ledled Cymru. Mae'n canolbwyntio ar gynyddu gallu busnesau Cymru i arloesi drwy eu helpu i fuddsoddi mewn gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi cynaliadwy drwy gyngor, canllawiau ac ymgynghorwyr arbenigol ar waith ymchwil, datblygu, gweithgynhyrchu uchel ei werth, dylunio arloesol, eiddo deallusol, arloesi agored a masnacheiddio syniadau newydd.

Cyllid Arloesedd SMART ers 2014:

	Dwyrain Cymru	Gorllewin Cymru & 'r Cymoedd	CYFANSWM
ERDF	£3.7m	£7.3m	£11.0m
LIC	£3.7m	£3.8m	£7.5m
Cyfanswm	£7.4m	£11.1m	£18.5m

Ers 2014 (tan fis Mehefin 2019), ar ôl dilyn Cynllun Gweithredu Diagnostig ac Arloesi, mae Arloesedd SMART wedi:

- gweithio gyda dros **2,200 o gwmnïau** ac
- annog **305 o fusnesau** i geisio cyllid cystadleuol gan Innovate UK a Horizon 2020.

Mae **SMART Cymru** yn cydfuddsoddi i annog busnesau i roi prosesau arloesol ar waith a gwneud gwaith ymchwil a datblygu. Ei nod yw cydfuddsoddi mewn gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi ym myd busnes yng Nghymru i sicrhau twf cynaliadwy. Ei sail yw ein Cronfa Dyfodol Economaidd ac mae'n darparu cyllid ar gyfer busnesau sydd â phrosiectau sy'n rhoi sylw i elfennau'r Alwad i Weithredu. Mae'r rhain yn cynnwys: Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlysoedd; Ymchwil a Datblygu, Awtomatiaeth a Digitaleiddio.

Mae'n darparu cyllid ar gyfer pob cam o brosiect ymchwil a datblygu er mwyn creu cynnyrch a phrosesau newydd:

- Ymarferoldeb
- Ymchwil Ddiwydiannol
- Datblygu Arbrolfol
- Defnyddio

Mae cyllid Taleb Arloesi a Mwy yn cefnogi busnes i weithredu proses newydd drwy roi sylw i'r holl ofynion busnes (addasu adeiladau, comisiynu, hyfforddi ac ati). Mae Talebau Arloesi ar gael ar gyfer gwasanaethau 3ydd parti a chyfarpar cyfalaf technoleg newydd.

Ers 2014:

- Mae SMART Cymru wedi cefnogi **476** o brosiectau
- Rydym wedi gweithio gyda **362** o fusnesau
- Mae SMART Cymru wedi darparu grantiau o **£18.6m**
- Gwariwyd cyfanswm o **£44.7m** ar waith ymchwil a datblygu

